

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Tachwedd 4ydd, 2014

Presennol: Dewi Jones (Cadeirydd), Alwyn Roberts (is gadeirydd), Alan Jones Evans, Cynghorydd Gwynedd, Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1347 Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

1348 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar faterion ar yr Agenda.

1349 Nid oedd neb yn datgan buddiant ar fater ar yr Agenda.

1350 Cadarnhau cywirdeb Cofnodion cyfarfod Hydref 7fed, 2014

1351 Adroddodd y Clerc ar Faterion o'r cyfarfod diwethaf:

- 1344 iv Ateb y Gwasanaeth Trafnidiaeth am y bws olaf nos Sadwrn
- 1346 2 i Lletya pobol hŷn- cydnabod ein llythyr
- 1346 2 ii Adroddiad ar gyfarfod "Cludiant Cymunedol" yn Nhanybwllch. Cytunwyd i ofyn i Bartneriaeth Penllyn ystyried mynegi diddordeb, gan fod bws Age Cymru eisoes wedi cychwyn gwasanaethu'r Bala a gall hyn fod yn sail i gydweithredu pellach.
- 1346 5 Hyfforddiant Un Llais Cymru - dewiswyd Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Huw P Roberts a'r Clerc fel cynrychiolwyr

1352 Nid oedd materion eraill yn codi o'r Cofnodion.

1353 Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir a soniodd am gais Ysgol Gydol Oes yn Y Bala. Disgwylir ateb o du'r Cynulliad yn Rhagfyr. Mae'r cais yn cynnwys elfen hanfodol o gyfranogiad cymunedol, gan gynnwys uwchraddiad statws y Llyfrgell, cyd-ariannu Cae Pedwar Tymor gyda Chymdeithas Pêl droed Cymru, darpariaeth theatr a gwasanaeth sinema, a ffederasiwn rhwng yr ysgolion cynradd gwledig. Rhoddodd adroddiad hefyd ar y cyfarfod Her Gwynedd a gynhaliwyd ar 3/11/14 i drafod y wasgfa ariannol ar Gyngor Gwynedd.

1354 Materion Eiddo'r Cyngor

- i. Ystyriwyd Polisi'r Fynwent ac fe wnaethpwyd mân newidiadau i'r drafft; gofynnwyd am lunio canllaw ar faint plinth beddfeini. Cyflwynir y Polisi i'w gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf. Cytunodd **Karl Jones** i drafod gwaith ar y wal gyda chontractwr lleol.
- ii. Toiledau: adroddodd Alan Jones Evans y gellid cael grant i'w huwchraddio. Cytunodd **Karl Jones** i lunio braslun o'r ffordd ymlaen gydag amcan bris erbyn y cyfarfod nesaf.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

1355 Materion ariannol

- i. Awdurdodwyd talu anfonebau'r mis.
- ii. Cafwyd ymateb i'r cais am rent cwt yr Hers.
- iii. Mae'r Swyddog Ariannol yn parhau i drafod parthed grant at waith yn y fynwent.

1356 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned

Yn dilyn sylwadau gan ardalwyr, cytunwyd i'r Clerc anfon at y perchennog parthed defnyddiau sydd wedi eu gadael ar ochr y ffordd wrth Bont Lliw. **Gweithredu Clerc**

1357 Partneriaeth Penllyn:

- i. Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr.
- ii. Cytunwyd i ystyried a oes angen tynnu neu ychwanegu llwybrau ar y Cytundeb y mis nesaf pan fydd mapiau a manylion wrth law.
- iii. Cytunwyd nad oes angen gwahodd cynrychiolwyr o Bartneriaeth Penllyn i annerch y Cyngor gan fod Cynrychiolwyr y Cyngor yn rhoi adroddiad manwl bob mis.

1358 Gohebiaeth:

1. Gwynedd:

Derbyniwyd rhybudd am gau Llwybr March Rhif 47 – gwaharddiad dros dro

2. **Llywodraeth Cymru:** Derbyniwyd neges am gynnydd y Bil Cynllunio wrth iddo symud drwy broses ddeddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Manylion ar <http://wales.gov.uk/topics/planning/legislation/planningbill-old/planning-bill-news/?lang=cy>

Derbyniwyd gwybodaeth am arolwg o foch daear marw. Y rhif i ffonio ydyw 0300 303 8268 <http://cymru.gov.uk/tbmewngwartheg>

3. Eraill:

- i. Diolchwyd am y gwahoddiad i wasanaeth sefydlu'r Parchedig Elaine Atack.
- ii. Nodwyd derbyn ymgynghoriad y gwasanaeth Tân ar e-bost.
- iii. Derbyniwyd bwletin Hydref Mantell Gwynedd.
- iv. Derbyniwyd llythyr yn cynnig gwasanaeth difa plâu.

Amser gorffen: 9.00pm